***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 16. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3

## DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH CYDNABOD CYRFF DYFARNU

### *Adolygu penderfyniad i roi cyfarwyddyd*

16 (1) Rhaid i Gymwysterau Cymru wneud trefniadau i'w benderfyniad i roi'r cyfarwyddyd y cyfeirir ato ym mharagraff 14 fod yn ddarostyngedig i adolygiad ar gais y corff dyfarnu o dan sylw.

(2) Rhaid i'r trefniadau—

(a) pennu'r cyfnod y caniateir gwneud cais am adolygiad ynddo,

(b) gwneud darpariaeth i'r person sy'n cynnal yr adolygiad wneud argymhellion i Gymwysterau Cymru mewn cysylltiad â'r cyfarwyddyd,

(c) gwneud darpariaeth i Gymwysterau Cymru, ar ôl ystyried yr argymhellion hynny, naill ai cadarnhau neu wrthdroi ei benderfyniad i roi'r cyfarwyddyd, neu newid y cyfarwyddyd, a

(d) ei gwneud yn ofynnol i Gymwysterau Cymru hysbysu'r corff o dan sylw am ganlyniad yr adolygiad.

(3) Rhaid i'r trefniadau ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n annibynnol ar Gymwysterau Cymru gynnal adolygiad.

(4) Mae person yn annibynnol ar Gymwysterau Cymru, at y diben hwn—

(a) yn achos unigolyn, os nad yw'n aelod o Gymwysterau Cymru nac yn aelod o staff Cymwysterau Cymru;

(b) yn achos corff, os nad yw unrhyw un o aelodau'r corff yn aelod o Gymwysterau Cymru nac yn aelod o staff Cymwysterau Cymru.

(5) Os yw Cymwysterau Cymru, yn dilyn adolygiad, yn cadarnhau ei benderfyniad i roi cyfarwyddyd, neu'n newid y cyfarwyddyd o dan sylw, rhaid iddo roi hysbysiad i'r corff o dan sylw—

(a) sy'n nodi'r cyfarwyddyd, fel y'i cadarnhawyd neu fel y'i newidiwyd,

(b) sy'n rhoi rhesymau dros y cadarnhad neu'r newid, ac

(c) sy'n datgan y dyddiad y bydd y cyfarwyddyd, neu'r cyfarwyddyd fel y'i newidiwyd, yn cymryd effaith.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** Atod. 3 para. 16 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Paragraff 16.